

# Rhestr termau QAA

Esboniad o dermau QAA

Medi 2022



# Rhestr termau QAA

## Esboniad o dermau QAA

[A](#) [B](#) [C](#) [D](#) [E](#) [Ff](#) [G](#) [H](#) [L-LI](#) [M-N](#) [O](#) [P](#) [R-Rh](#) [S](#) [T-Th](#) [U-Y](#)

### A

#### **Achrediad Rhaglen Rhyngwladol**

Mae'r dull Achrediad Rhaglen Rhyngwladol yn rhoi cyfle i sefydliadau y tu allan i'r DU gael achrediad i'w rhaglenni astudio drwy adolygiad annibynnol gan gymheiriaid a wneir gan QAA yn erbyn y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG).

#### **achredu dysgu ardystiedig blaenorol**

Adnabod, asesu a chydabod yn ffurfiol y dysgu a'r cyflawniad a ddigwyddodd rywbryd yn y gorffennol cyn mynediad i gwrs astudio, ac y derbyniodd y dysgwr ryw fath o gydnabyddiaeth swyddogol amdano.

#### **achredu dysgu blaenorol drwy brofiadau**

Adnabod, asesu a chydabod yn ffurfiol y dysgu a'r cyflawniad a ddigwyddodd rywbryd yn y gorffennol cyn mynediad i gwrs astudio, ond nid yng nghyd-destun addysg neu hyfforddiant ffurfiol.

#### **achredu dysgu blaenorol**

Adnabod, asesu a chydabod yn ffurfiol y dysgu a'r cyflawniad a ddigwyddodd rywbryd yn y gorffennol (efallai o ganlyniad i gwrs blaenorol, astudiaeth hunangyfeiriedig, neu brofiad gweithredol), a gymerir i ystyriaeth wrth roi lle i fyfyrwr ar gwrs astudio. (Gweler hefyd 'cydnabod dysgu blaenorol'.)

#### **achredu**

Proses o gadarnhau neu gymeradwyo rhaglen addysg uwch, neu ddarparwr, gan sefydliad allanol awdurdodedig. Gall rhaglenni gael eu hachredu gan gorff proffesiynol neu gorff rheoleiddio, megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

#### **Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen)**

Proses a ddefnyddir gan QAA i wneud adolygiadau a darparu adroddiadau am ddarparwyr amgen nad ydynt yn gymwys i gofrestru â'r Swyddfa Myfyrwyr ac sydd angen goruchwyliaeth addysgol i gael statws noddwr Haen 4 a/neu ddynodiad cwrs penodol.

#### **Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Tramor)**

Proses a ddefnyddir gan QAA i wneud adolygiadau a darparu adroddiadau am ddarparwyr tramor cydnabyddedig sy'n cynnig cyrsiau llawn yn y DU ac sydd angen goruchwyliaeth addysgol i gael statws noddwr Haen 4.

#### **adolygiad allanol**

Adolygiad a weithredir ar safle darparwr addysg uwch gan dîm o bobl sydd â'r cymwysterau priodol nad ydynt wedi eu cyflogi yno fel arfer.

## **Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru**

Proses a ddefnyddir gan QAA yng Nghymru i wneud adolygiadau a darparu adroddiadau am ddarparwyr addysg uwch yn erbyn y gofynion rheoleiddiol sylfaenol o ran ansawdd.

## **Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol**

Mae'r dull Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol yn rhoi cyfle i sefydliadau y tu allan i'r DU gael adolygiad annibynnol gan gymheiriaid a wneir gan QAA yn erbyn y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG).

### **adolygiad cyfnodol**

Adolygiad mewnol o un neu fwy o raglenni astudio, a wneir gan sefydliadau'n gyfnodol (unwaith bob pum mlynedd yn nodweddiadol), gan ddefnyddio pwyntiau cyfeirio sydd wedi eu cytuno'n genedlaethol, i gadarnhau bod y rhaglenni o safon academiaidd ac o ansawdd priodol. Yn nodweddiadol, mae'r broses yn cynnwys arbenigwyr o ddarparwyr addysg uwch eraill.

### **adolygiad gan gymheiriaid**

Proses adolygu a weithredir gan bobl sydd â phrofiad cyfredol neu ddiweddar iawn o'r gweithgaredd sy'n cael ei adolygu (yn yr achos hwn, darparu neu asesu addysg uwch).

## **Adolygiad Gwella Ansawdd a Safonau**

Rhan gyntaf proses ddau gam o sicrhau a gwella ansawdd yn yr Alban ym mlwyddyn academiaidd 2022-23 a 2023-24.

## **Adolygiad Gwella Ansawdd: Cymru**

Proses a ddefnyddir gan QAA yng Nghymru i wneud adolygiadau a darparu adroddiadau am ansawdd a safonau darparwyr addysg uwch, yn rhan o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

## **Adolygiad o Ansawdd a Safonau**

Proses a ddefnyddir gan QAA yn Lloegr i wneud adolygiadau a darparu adroddiadau am ansawdd a safonau darparwyr addysg uwch sydd wedi eu cofrestru, neu sydd eisiau gwneud cais am gael eu cofrestru, gyda'r Swyddfa Myfyrwyr.

## **Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant (ELIR)**

Y broses a ddefnyddir gan QAA yn yr Alban i wneud adolygiadau a darparu adroddiadau am ansawdd a safonau academiaidd mewn sefydliadau addysg uwch. Yn arbennig, mae ELIR yn archwilio'r ffyrdd mae sefydliadau'r Alban yn ceisio gwella'r profiadau dysgu y maent yn eu darparu i'w myfyrwyr.

### **adolygiad**

(Mewn adolygiad gan QAA,) gwerthusiad trwyadl o ddarparwr addysg uwch a wneir gan arbenigwyr sydd â'r cymwysterau priodol, gan ganolbwyntio fel arfer ar safonau academiaidd ac ansawdd darpariaeth addysg uwch y darparwr. (Gweler hefyd 'adolygiad cyfnodol', 'adolygiad allanol'.)

### **adolygwr**

Unigolyn a gyflogir gan QAA i fod yn rhan o'r tîm sy'n adolygu darparwr addysg uwch. A benodir o blith gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad cyfredol neu ddiweddar yn y sector addysg uwch, neu fyfyrwyr cyfredol neu ddiweddar (sydd wedi cwblhau cwrs o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf). Mewn rhai o ddulliau adolygu QAA, cyfeirir at yr unigolion hynny hefyd fel 'aseswyr'.

## **adroddiad adolygiad**

Dogfen sy'n adrodd yn fanwl ar adolygiad.

## **addasrwydd i arfer**

Yn gymwys a pharod, ac yn dangos sgiliau, ymddygiad, gwerthoedd a nodweddion priodol, i wneud rôl broffesiynol arbennig fel y mae wedi ei chydabod gan y corff proffesiynol perthnasol.

## **addysg bellach**

Dysgu ffurfiol sy'n dilyn addysg orfodol, megis Lefelau A, Lefelau T, Lefelau NVQ a chyrsgiau Mynediad i Addysg Uwch. Fel arfer mae angen rhyw fath o addysg bellach i gymhwyso ar gyfer mynediad i addysg uwch.

## **addysg drawswladol**

Cyfleoedd dysgu mewn addysg uwch a ddarperir y tu allan i'r DU, ond sy'n arwain at ddyfarniad gan gorff dyfarnu graddau'r DU.

## **addysg gyrfaoedd**

Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (IAG) sydd wedi eu bwriadu i helpu myfyrwyr gyda dewisiadau gyrfaol, a chynllunio a pharatoi ar gyfer cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y dyfodol.

## **addysg uwch**

Addysg a ddaw ar ôl addysg uwchradd ac addysg bellach, sy'n arwain at gymhwyster neu gredyd a ddyfarnir gan gorff dyfarnu graddau. Yn nodweddiadol, mae'n golygu gweithio tuag at radd, ond gallai rhai rhaglenni arwain at ddiploma, tystysgrif neu ddyfarniad neu gymhwyster arall yn y Fframweithiau Cymwysterau cenedlaethol.

## **addysgu allan**

Term a ddefnyddir pan fydd darparwr yn parhau i addysgu myfyrwyr presennol ar gwrs (neu raglen) sy'n cael ei derfynu nes byddent wedi cwblhau eu hastudiaethau.

## **ail farcio**

Ail gam o farcio gwaith, a allai fod i bwrpasau gwirio, samplu neu safoni. (Gweler hefyd 'marcio dwbl'.)

## **allanoldeb**

Defnyddio arbenigwyr o'r tu allan i ddarparwr addysg uwch, megis arholwyr allanol neu gynghorwyr allanol, i helpu gyda threfnau sicrhau ansawdd.

## **ansawdd academaidd**

Term cyffredinol sy'n cyfeirio at y ffordd mae darparwyr addysg uwch yn rheoli cyfleoedd dysgu ac addysgu, a pha mor dda maent yn eu rheoli, i helpu eu myfyrwyr i symud ymlaen a llwyddo.

## **apêl**

Cais am adolygu penderfyniad corff academaidd mewn perthynas â marc, canlyniad neu benderfyniad. Gall myfyrwyr apelio yn erbyn canlyniad ar sail tystiolaeth neu drefn, ond nid ar sail anghytundeb â beirniadaeth academaidd.

(Mewn adolygiad gan QAA,) cais ffurfiol i adolygu penderfyniad sy'n deillio o un o ddulliau adolygu QAA. (Gweler hefyd 'sylwadau'.)

## **arfer academaidd da**

Yn gweithio gyda gonestrwydd, yn osgoi llên-ladrad a mathau eraill o dwyll.

## **arfer da**

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu QAA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i safonau academaidd ac ansawdd, ac sy'n haeddu cael ei efelychu a'i ledaenu'n ehangach.

## **Arferion Craidd**

Datganiadau yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU sy'n nodi ffyrdd effeithiol o weithio, sy'n tanategu'r gwaith o sicrhau'r disgygliadau, ac a fydd yn sicrhau canlyniadau positif i'r myfyrwyr. (Gweler hefyd 'Y Cod Ansawdd').

## **Arferion Cyffredin**

Datganiadau yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliant. (Gweler hefyd 'Y Cod Ansawdd'.)

## **arloeswyr**

Grŵp o gyflogwyr sy'n cydweithio i ddatblygu safonau prentisiaeth.

## **arholi allanol**

Y broses a ddefnyddir gan un neu fwy o arbenigwyr annibynnol ('arholwyr allanol') i roi sylw ar gyflawniad myfyrwyr mewn perthynas â safonau academaidd sefydledig ac am agwedd y darparwr addysg uwch tuag at asesiad, gan felly helpu i sicrhau bod safonau'n gyson a gweithdrefnau asesu'n deg ledled y DU.

## **arholwr allanol**

Arbenigwr annibynnol a benodir gan gorff dyfarnu graddau i roi cyngor diduedd ac annibynnol iddo, ac i roi sylwadau defnyddiol ar safonau'r corff dyfarnu graddau ac ar gyflawniad y myfyrwyr mewn perthynas â'r safonau hynny. Mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod y darparwr yn gweithredu ei bolisiâu a'i weithdrefnau ei hun mewn ffordd gyson a theg. Maent hefyd yn rhoi sylwadau am ansawdd a safonau'r cyrsiau mewn perthynas â fframweithiau a safonau cenedlaethol, ac yn dweud a ydynt yn cymharu'n ddigonol â safonau mewn darparwyr eraill yn y DU, ac maent yn nodi arferion da ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

## **asesiad crynodol**

Asesiad ffurfiol o waith myfyrwyr, a ddefnyddir i ddangos i ba raddau y mae'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf asesu er mwyn gwerthuso eu cyflawniad yn erbyn y canlyniadau dysgu y bwriedir eu sicrhau o'r modiwl neu'r cwrs. Fel arfer, yn rhan o asesiad crynodol, mae'r marciau a roddir yn cyfrio tuag at y marc terfynol am y cwrs/modiwl/dyfarniad. (Gweler hefyd 'asesiad ffurfiannol'.)

## **asesiad diagnostig**

Gwerthusiad o ba mor barod yw dysgwr ar gyfer rhaglen astudio benodol neu uned astudio sy'n rhan ohoni, gan ganfod unrhyw gryfderau, bylchau mewn gwybodaeth neu ddiffyg mewn dealltwriaeth a sgiliau angenrheidiol.

## **asesiad ffurfiannol**

Asesiad datblygiadol sydd â'r nod o helpu myfyrwyr i ddysgu'n fwy effeithiol drwy roi adborth iddynt am eu perfformiad a dangos ffyrdd iddynt o'i gynnal a'i wella. Weithiau, mae ymarfer

myfyriol y myfyrwyr yn cyfrannu at asesiad ffurfiannol. Nid yw'n cyfrannu at farc, gradd neu ddosbarth terfynol y radd a roddir i'r myfyriwr. (Gweler hefyd 'asesiad crynodol'.)

### **asesiad o ganlyniadau terfynol**

Term a ddefnyddir yn Lloegr am gyfres o asesiadau y mae'n rhaid i brentisiaid eu gwneud ar ddiwedd eu prentisiaethau er mwyn dangos eu bod yn gallu gwneud y swydd y cawsent eu hyfforddi ar ei chyfer.

### **asesiad synoptig**

Asesiad drwy dasg sy'n gofyn i fyfyrwyr dynnu ar wahanol elfennau o'u dysgu a dangos yr wybodaeth y maent wedi ei chasglu a dyfnder ac ehangder eu dealltwriaeth, yn ogystal â'r gallu i integreiddio a defnyddio eu dysgu.

## **B**

### **baglor yn y celfyddydau (BA)**

Gweler 'gradd baglor'.

### **baglor yn y gwyddorau (BSc)**

Gweler 'gradd baglor'.

### **beirniadaeth o ddim hyder**

Gweler 'beirniadaethau'.

### **beirniadaeth o hyder cyfyngedig**

Gweler 'beirniadaethau'.

### **beirniadaeth o hyder**

Gweler 'beirniadaethau'.

### **beirniadaethau gwahaniaethol**

(Mewn adolygiad gan QAA,) beirniadaethau ar wahân yn y drefn gywir ar gyfer y ddarpariaeth a ddilysir gan gyrff dyfarnu graddau ar wahân.

### **beirniadaethau**

(Mewn adolygiad gan QAA,) y canlyniadau ffurfiol penodedig a geir gan dîm o adolygwyr. Mae natur y beirniadaethau'n dibynnu ar y dull adolygu penodol.

## **C**

### **campws cangen**

Campws coleg neu brifysgol sydd ar wahân i'r prif gampws neu'r campws cartref.

### **canlyniadau dysgu**

Yr hyn y disgwylir i ddysgwr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

### **canlyniadau**

Gweler 'canlyniadau dysgu'.

### **carfan**

Grŵp o fyfyrwyr sy'n rhannu'r un profiad dysgu, er enghraifft, am eu bod wedi cychwyn yr un rhaglen astudio yn yr un brifysgol yn yr un flwyddyn.

### **casglu credydau**

Ennill credyd academaidd dros amser, drwy gwblhau unedau astudio'n llwyddiannus, neu drwy 'achredu dysgu blaenorol' / 'cydnabod dysgu blaenorol'.

### **clystyrau ymchwil**

Cymunedau o ymchwilwyr academaidd wedi eu grwpio ynghyd i hwyluso rhannu adnoddau a syniadau. Gallai'r trefniadau weithredu o fewn un darparwr addysg uwch neu gallent ddod ag ymchwilwyr at ei gilydd o nifer o ddarparwyr sy'n agos atynt yn ddaearyddol.

### **Y Cod Ansawdd**

Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU yw'r pwynt cyfeirio allweddol ar gyfer addysg uwch y DU sy'n diogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cyhoedd ac sy'n hyrwyddo enw da sector addysg uwch y DU am fod ymysg y gorau yn y byd. Mae'n galluogi i ddarparwyr ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallent ei ddisgwyl gan ei gilydd. Datblygwyd y Cod Ansawdd gan QAA ar ran y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU, mewn ymgynghoriad â'r sector addysg uwch.

### **cofnod astudio**

Cofnod manwl o astudiaethau myfyriwr, a roddwyd iddynt wedi iddynt gwblhau (neu ymadael â) rhaglen, sy'n rhoi tystiolaeth o'u cyflawniad gan gynnwys credyd a ddyfarnwyd a'r modiwlau a gwblhawyd yn llwyddiannus. (Gweler hefyd 'trawsgrifiad'.)

### **cofrestriad**

Y broses a ddefnyddir i dderbyn darparwr addysg uwch yn Lloegr ar gofrestr y Swyddfa Myfyrwyr. (Mewn perthynas â myfyrwyr, gweler 'cofrestru'.)

### **cofrestru**

Y gweithdrefnau ffurfiol y mae'n rhaid i fyfyrwr eu cwblhau neu basio drwyddynt yn ystod y cyfnod derbyn, wedi iddynt gael eu derbyn ar gwrs a chyn ei gychwyn.

### **coleg mewnosodedig**

Sefydliad preifat, sy'n rhan o rwydwaith fel arfer, yn gweithredu o fewn neu gerllaw safle corff dyfarnu graddau, yn ymwneud fel arfer â pharatoi myfyrwyr ar gyfer mynediad i raglenni addysg uwch. Mae QAA yn gweithredu dull adolygu ar gyfer colegau mewnosodedig nad ydynt yn gweithredu yn rhan o rwydwaith, o dan yr enw 'Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol'.

### **coleg prifysgol**

Coleg sy'n perthyn i brifysgol, neu sy'n gysylltiedig â phrifysgol, ac sydd heb yr hawl i ddyfarnu ei raddau ei hun neu, mewn rhai sefyllfaoedd, sy'n brifysgol yn ei rhinwedd ei hun ac sydd â phwerau dyfarnu graddau.

### **colegau addysg bellach**

Colegau, gan gynnwys colegau chweched dosbarth a cholegau arbenigol, sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant i ymadawyr ysgol ac oedolion (a adnabyddir hefyd fel 'sefydliadau addysg bellach' yng Nghymru a Gogledd Iwerddon). Mae rhai colegau o'r math yma'n darparu rhaglenni addysg uwch hefyd sy'n arwain at gymwysterau gan gyrff dyfarnu graddau eraill a/neu efallai bod ganddynt eu pwerau eu hunain i ddyfarnu graddau sylfaen.

## **conservatoire**

Sefydliad arbenigol ar gyfer hyfforddiant yn y celfyddydau perfformio (dawns, drama a cherddoriaeth).

## **corff asesu canlyniadau terfynol**

Corff dyfarnu sydd wedi ei gymeradwyo gan yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA) yn Lloegr i ddarparu gwasanaethau i asesu canlyniadau terfynol prentisiaethau. (Gweler hefyd 'asesiad o ganlyniadau terfynol'.)

## **corff cydnabyddedig**

Sefydliad a gydnabyddir gan Lywodraeth y DU fel corff sydd â hawl i ddyfarnu graddau a chymwysterau addysg uwch eraill. (Gweler hefyd 'corff dyfarnu graddau'.)

## **corff dyfarnu graddau**

Darparwyr addysg uwch sydd wedi eu hawdurdodi i ddyfarnu graddau addysg uwch o dan statudau perthnasol y DU. Gan y corff dyfarnu graddau y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd a safonau ei ddyfarniadau, hyd yn oed os yw'r dyfarniad cyfan neu ran ohono wedi ei ddarparu gan sefydliad darparu ar wahân. (Gweler hefyd 'pwerau dyfarnu graddau'.)

## **corff dyfarnu**

Gweler 'corff dyfarnu graddau'.

## **corff dynodedig**

Sefydliad sydd wedi ei benodi neu ei gydnabod yn ffurfiol i wneud swyddogaeth benodol. Mae QAA wedi ei chydnabod gan Fisâu a Mewnfudo'r DU fel corff dynodedig i bwrpas darparu goruchwyliaeth addysgol, a gan Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg y DU fel y Corff Sicrhau Ansawdd Dynodedig yn Lloegr fel y mae wedi ei ddiffinio yn Neddff Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

## **corff llywodraethu**

Y corff rheoli ffurfiol sy'n gyfrifol am reoli'r darparwr, y cyfeirir ato'n aml fel y bwrdd llywodraethwyr/ymddiriedolwyr.

## **corff proffesiynol**

Sefydliad sy'n goruchwyllo gweithgareddau proffesiwn penodol ac yn cynrychioli buddiannau ei aelodau.

## **corff rheoleiddio**

Sefydliad a gydnabyddir gan y llywodraeth fel un sy'n gyfrifol am reoleiddio neu gymeradwyo ystod arbennig o faterion. (Gweler hefyd 'corff statudol'.)

## **corff sicrhau ansawdd allanol**

Corff dan gontract i'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol (IfATE) yn Lloegr i sicrhau bod cyrff sy'n asesu canlyniadau terfynol prentisiaethau'n glynu at y Safon Brentisiaeth berthnasol.

## **Corff Sicrhau Ansawdd Dynodedig**

Gweler 'corff dynodedig'.



## **corff statudol**

Sefydliad a sefydlir drwy Ddeddf Seneddol sydd â gofyniad cyfreithiol i oruchwylio proffesiwn penodol (er enghraifft, y Cyngor Meddygol Cyffredinol). (Gweler hefyd 'corff rheoleiddio'.)

## **credyd academiaidd**

Gweler 'credyd'.

## **credyd(au)**

Ffordd o fesur a chydabod dysgu, lle bynnag a phryd bynnag y cyflawnir y dysgu hwnnw, ac a ddyfernir i gydnabod canlyniadau dysgu a gyflawnwyd ar lefel benodol, ac a ddefnyddir i ardystio'r cyflawniad hwn. (Gweler hefyd 'lefel credyd', 'gwerth credyd', 'cynlluniau casglu a throsglwyddo credydau'.)

## **cwrs â chredydau**

Term sy'n cyfeirio at gwrs a/neu ddyfarniad a gynigir gan ddarparwr sy'n cynnwys nifer benodol o credydau.

## **Cwrs Ar-lein Enfawr Agored (CAEA, neu MOOC)**

Cwrs ar-lein agored sy'n rhad ac am ddim ac a gynlluniwyd yn rhannol i gyflwyno addysg uwch i ddysgwyr.

## **cwrs rhyngosod**

Rhaglen astudio sy'n cynnwys cyfnod sylweddol - blwyddyn fel arfer - a dreulir yn astudio i ffwrdd oddi wrth y brifysgol neu'r coleg (yn y gwaith fel arfer).

## **cwrs sylfaen**

Rhaglen astudio addysg uwch a lunnir i baratoi myfyrwyr ar gyfer cwrs ychwanegol nad oes ganddynt y cymwysterau mynediad arferol ar ei gyfer. Weithiau mae cyrsiau sylfaen yn gyfatebol â 'Blwyddyn 0' paratoadol cwrs gradd. Nid ydynt yr un fath â graddau sylfaen.

## **cwrs**

Llwybr astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster. Rhaid i raglenni addysg uwch gael eu cymeradwyo neu eu dilysu gan gyrrff dyfarnu graddau'r DU. Yn dibynnu ar y darparwr unigol, cyfeirir at gyrsiau hefyd fel rhaglenni, unedau neu fodiwlau.

## **cwyn**

Amheuaeth benodol am ansawdd cyfleoedd dysgu'r myfyriwr mewn darparwr addysg uwch. Mae cwynion yn wahanol i apeliadau, ond efallai bod polisïau'r darparwr yn ymdrin â'r ddau. (Gweler hefyd 'apêl'.)

## **cydnabod dysgu blaenorol**

Adnabod, asesu a chydabod dysgu a chyflawniad blaenorol yn ffurfiol. Cyfeirir at hyn hefyd fel 'achredu dysgu blaenorol'. Gall hyn ddigwydd drwy gydnabod/achredu naill ai ddysgu ardystiedig blaenorol neu ddysgu blaenorol drwy brofiadau, lle asesir a chydabyddir dysgu a gyflawnwyd y tu allan i systemau addysg neu hyfforddi at ddibenion academiaidd. Gallai'r termau hyn gael eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn meysydd astudio penodol a rooleiddir, megis nyrsio a galwedigaethau gofal iechyd eraill.

## **cyfadran anfonedig**

Trefniant lle darperir rhaglen mewn lleoliad nad yw ar y prif gampws (mewn gwlad dramor fel arfer) gan staff o'r corff dyfarnu graddau. Gallai staff lleol ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr.

## **cyfleoedd dysgu**

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academaidd a phersonol, adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

## **cyflogadwyedd**

Cyfres o gyflawniadau, sgiliau, dealltwriaeth a nodweddion personol sy'n gwneud graddedigion yn fwy tebygol o gael swydd a bod yn llwyddiannus yn eu galwedigaethau dewisol.

## **cyflwyniad y myfyrwyr**

(Mewn adolygiad gan QAA,) adroddiad a gyflwynir gan fyfyrwyr mewn darparwyr, sydd i gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn adolygiad gan QAA.

## **cyflwyniad**

(Mewn adolygiad gan QAA,) y dogfennau a gyflwynir gan ddarparwr ar y cam cychwynnol, i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn adolygiad gan QAA.

## **Cyfrin Gyngor**

Y corff llywodraethol sy'n cynghori'r brenin/frenhines yn ffurfiol ar faterion penodol, gan gynnwys penderfyniadau ynglŷn â pha sefydliadau fydd yn derbyn teitl a statws prifysgol a/neu'n cael dyfarnu graddau.

## **cyfwerth ag amser llawn**

Mesur lle mae pob aelod o staff neu fyfyrwr rhan amser wedi eu mynegi fel ffracsiwn (neu ddegolyn) o aelod o staff neu fyfyrwr llawn amser, yr ystyrir y cyfanswm ar y cyd i bwrpasau cymharu a chyllido.

## **cynghorau ymchwil**

Y saith sefydliad a ariennir gan y llywodraeth i gefnogi ymchwil mewn gwahanol ddisgyblaethau ac i gyllido ysgoloriaeth ymchwil i ymgeiswyr llwyddiannus sydd eisiau gwneud ymchwil academaidd ffurfiol.

## **cynghorydd allanol**

Defnyddir cynghorwyr allanol i ddarparu arbenigedd academaidd a phroffesiynol wrth ddatblygu a dilysu cyrsiau newydd ac ar adegau perthnasol eraill hefyd. Gellir gofyn am eu cymorth i ddarparu arbenigedd academaidd neu broffesiynol, er enghraifft o safbwynt y diwydiant/cyflogwyr/busnesau, er mwyn hysbysu'r broses o gynllunio cyrsiau a chyfrannu at y gwaith addysgu a darlithio ar safle'r darparwr neu mewn lleoliad proffesiynol. Er enghraifft, goruchwylwyr/mentoriaid yn y gweithle ym meysydd addysg a nyrsio, ac ar gyfer prentisiaethau a myfyrwyr sydd ar leoliad gwaith.

## **y cyhoedd**

Unrhyw un a allai gael gafael ar, neu sydd eisiau cyrraedd, gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch.

## **cyhoeddi**

Rhoi gwybodaeth yn eiddo i'r cyhoedd, gan ei chyhoeddi naill ai'n draddodiadol mewn print neu ar ffurf electronig - er enghraifft, ar wefan.

## **cymeradwyaeth**

Cadarnhad ffurfiol o lwybr astudio gan gorff dyfarnu graddau'r DU. Cyfeirir ato weithiau fel 'dilysiad'. (Gweler hefyd 'cymeradwyo rhaglenni'.)

## **cymeradwyo rhaglenni**

Proses ffurfiol a ddefnyddir gan gorff dyfarnu graddau i benderfynu a yw rhaglenni astudio (o ran eu cynnwys, addysgu/dysgu ac asesiad) o safon ac ansawdd sy'n briodol i arwain at un o'i gymwysterau. Mae hyn yn berthnasol i raglenni a ddarperir yn uniongyrchol gan y corff dyfarnu graddau ac i raglenni a ddarperir mewn sefydliadau darparu.

## **Cymhwyster Meddygol Sylfaenol**

Gradd feddygol gyntaf a ddyfernir gan gorff neu gyfuniad o gyrff a gydnabyddir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol at y diben hwn, neu oedd â'r pŵer i gyhoeddi Cymwysterau Meddygol Sylfaenol ar y pryd pan ddyfarnwyd y radd.

## **cymhwyster**

Dyfarniad academaidd sy'n cael ei gydnabod yn ffurfiol, megis gradd, diploma neu dystysgrif, a roddir ar ôl cwblhau rhaglen astudio'n llwyddiannus.

## **cymorth bugeiliol**

Help neu arweiniad, a roddir ar sail un-i-un fel arfer, sy'n ymwneud nid â materion academaidd ond gyda'r problemau personol ac emosiynol a allai godi yn ystod profiad addysg uwch y myfyriwr.

## **Cynllun Cydnabod ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (Cynllun CGA)**

Proses a ddefnyddir gan QAA i adolygu darparwyr sy'n cynnig rhaglenni astudio dramor tymor byr. Mae'r Cynllun CGA yn berthnasol i ddarparwyr 'trydydd parti' sy'n cynnig rhaglenni astudio dramor tymor byr yn y DU, sydd yn eu tro'n rhan o gyrsiau gradd a gynigir gan ddarparwyr tramor yn eu gwledydd cartref (sef darparwyr sy'n cynnig cyfleoedd i astudio dramor).

## **cynllun marcio**

Fframwaith manwl ar gyfer aseinio marciau, lle rhoddir nifer benodol o farciau am rannau unigol o'r ateb.

## **cynlluniau casglu a throsglwyddo credydau**

Trefniadau o fewn a rhwng darparwyr addysg uwch sy'n galluogi i gredyd academaidd gael ei gasglu dros amser a'i drosglwyddo rhwng rhaglenni a/neu ddarparwyr.

## **cynllunio datblygiad personol**

Proses gyda chefnogaeth a strwythur a weithredir gan ddysgwyr i fyfyrion ar eu dysgu eu hunain, eu perfformiad a/neu eu cyflawniad, ac i gynllunio ar gyfer eu datblygiad personol, addysgol a gyrfaol.

## **cynnydd**

Y daith ffurfiol y mae myfyrwyr yn ei chymryd drwy gwrs, neu o un cwrs i un arall, sy'n gofyn astudio ar lefel benodol, yn ogystal ag ennill lleiafswm o gredydau er mwyn gallu symud ymlaen i'r cam nesaf.

## **cyrchfannau graddedigion**

Cyflogaeth, addysg barhaus neu alwedigaethau eraill y mae graddedigion yn anelu amdanynt yn dilyn cyfnod penodol o amser ar ôl cwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus. Cesglir data drwy Arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch.

## **cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio**

Cyrff sy'n gosod y safonau ar gyfer proffesiynau penodol ac sy'n rheoleiddio mynediad i mewn i'r proffesiwn/proffesiynau ac sydd â'r awdurdod i achredu, cymeradwyo neu gydnabod rhaglenni penodol sy'n arwain at y cymwysterau proffesiynol perthnasol - y mae ganddynt gyfrifoldeb statudol neu reoleiddio amdano/amdanynt efallai.

## **cyrff rhestredig**

Sefydliadau yn y DU sydd heb bwerau i ddyfarnu eu graddau eu hunain ond sy'n darparu cyrsiau llawn sy'n arwain at radd gan gorff cydnabyddedig.

## **D**

### **darpar fyfyrwyr**

Unigolion sy'n gwneud cais neu'n ystyried gwneud cais i ddarparwr addysg uwch am le ar un o'i gyrsiau, ar unrhyw lefel neu drwy unrhyw ddull astudio.

### **darpariaeth**

Yng nghyd-destun addysg uwch, sicrhau bod cyrsiau ar gael i fyfyrwyr a rhoi cyfleoedd dysgu iddynt drwy hynny.

### **darparwr addysg uwch**

Sefydliad sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r bwerau hyn wedi eu cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu o dan Adran 76 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu dan Adran 48 Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor QAA, neu, yn Lloegr, drwy ddyfarniad y Swyddfa Myfyrwyr ar gyngor QAA o dan Adran 42 Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

### **darparwr amgen**

Darparwyr, ac eithrio colegau addysg bellach, sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch ond nad ydynt yn derbyn arian cyhoeddus gan y Swyddfa Myfyrwyr neu'r cyrff cyllido addysg uwch yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### **darparwr cymorth**

Sefydliad, heblaw'r corff dyfarnu graddau, sy'n darparu adnoddau neu gyfleusterau i gefnogi dysgu myfyrwyr. Gallai hwn fod yn ddarparwr addysg uwch heb bwerau dyfarnu graddau, corff dyfarnu graddau heblaw'r corff sy'n rhoi'r dyfarniad (er enghraifft, yng nghyd-destun rhai strwythurau ffederal), cyflogwr neu sefydliad arall sydd wedi ei gymeradwyo gan y corff dyfarnu graddau.

## **darparwr preifat**

Coleg annibynnol sy'n cynnig addysg uwch y DU ond nad yw'n derbyn arian cyhoeddus gan y cynghorau cyllido addysg uwch a gallent fod yn gweithredu i wneud elw neu fod â statws elusennol. (Gweler hefyd 'darparwr amgen'.)

## **darparwr**

Unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â darparu addysg uwch i fyfyrwyr neu brentisiaid. (Gweler hefyd 'darparwr addysg uwch', 'darparwr preifat'.)

## **datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)**

Rhaglenni hyfforddiant, rhai'n arwain at ddyfarniadau ffurfiol, i ymestyn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth person sy'n berthnasol i gyflogaeth.

## **Datganiad Meincnodi Pwnc**

Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc, a hwylusir gan QAA, yn nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio mewn ystod o feysydd astudio, ac yn esbonio beth sy'n rhoi ei chydlynid a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno. Ysgrifennir y datganiadau hyn gan arbenigwyr pwnc a dynnir o'r sector addysg uwch a'r diwydiant, a chânt eu defnyddio fel pwyntiau cyfeirio wrth gynllunio, darparu ac adolygu rhaglenni academiaidd.

## **datganiad meincnodi**

Gweler 'Datganiad Meincnodi Pwnc'.

## **Datganiad o Nodweddion**

Mae Datganiadau o Nodweddion yn disgrifio nodweddion arbennig cymwysterau ar lefelau penodol yn y Fframweithiau Cymwysterau. Maent yn disgrifio'r cymwysterau yn nhermau eu pwrpas, eu nodweddion cyffredinol a'u canlyniadau generig, ond nid ydynt yn cynnwys manylion meysydd astudio.

## **derbyn myfyrwyr gyda safle uwch**

Derbyn myfyrwyr i raglenni ar gam sy'n uwch na'r cam cychwynnol, a'r ddealltwriaeth yw bod myfyriwr sy'n cael mynediad felly wedi ei h/eithrio rhag gwneud rhan o'r rhaglen am fod modd ardystio neu ddangos tystiolaeth bod y dysgwr wedi gwneud dysgu blaenorol sy'n gyfatebol.

## **derbyniad(au)**

Yr arferion a'r prosesau sy'n gysylltiedig â gwneud cais am gwrs a chael lle ar y cwrs, o'r cam ymgeisio a dethol hyd y cofrestru. Mae gan ddarparwyr addysg uwch eu prosesau eu hunain sy'n llywio penderfyniadau derbyn.

## **derbyniadau cynhwysol**

System dderbyn sy'n ceisio lleihau unrhyw rwystrau diangen yn y broses a allai atal rhai grwpiau o ymgeiswyr rhag gwneud cais llwyddiannus.

## **diffiniad gweithredol**

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n pennu yn union beth mae QAA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

## **dilysu rhaglenni**

Gweler 'cymeradwyo rhaglenni'.

## **dilysu**

Proses a ddefnyddir gan gorff dyfarnu graddau i gymeradwyo modiwl neu raglen sy'n cyfrannu neu'n arwain at un o'i ddyfarniadau. Darperir y cwrs a ddilysir gan y darparwr a'i lluniodd ac, fel arfer, mae gan y myfyrwyr ar y cwrs berthynas gytundebol uniongyrchol gyda'r darparwr hwnnw ond nid gyda'r darparwr dilysu. Mae'r darparwr dilysu'n parhau'n gyfrifol am safonau academaidd y dyfarniad a roddir yn ei enw. (Gweler hefyd 'etholfreinio'.)

## **dim anfantais**

Polisi sy'n ceisio lleihau effeithiau ystod o amgylchiadau arbennig, drwy sicrhau nad yw unigolyn dan anfantais annheg o ganlyniad i ofyniad i newid rheolau neu reoliadau, yn ystod ei gyfnod o astudio. Fel arfer, mae hyn yn golygu cyfrifo a gwerthuso:

- y canlyniad y byddai wedi ei gael os na fyddai'r newidiadau wedi digwydd
- y canlyniad a gafwyd ar ôl gwneud y newidiadau.

Cyfeirir atynt hefyd fel polisïau 'rhwyd ddiogelwch'. Roedd polisïau 'dim anfantais' dros dro'n ymateb cyffredin gan ddarparwyr i'r amhariadau gan y pandemig COVID-19.

## **diogelu**

Y prosesau y mae darparwyr addysg uwch yn eu gweithredu ac yn cadw atynt i sicrhau bod eu myfyrwyr yn gallu astudio a chymryd rhan ym mywyd myfyrwyr o fewn amgylchedd diogel a chefnogol.

## **diploma addysg uwch**

Gweler 'diploma israddedig', 'diploma i raddedigion', 'diploma ôl-raddedig'.

## **diploma i raddedigion**

Cymhwyster addysg uwch ar lefel 6 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* ac ar lefelau 9 i 10 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (9 ar gyfer graddau cyffredin, 10 ar gyfer graddau anrhydedd).

## **diploma israddedig**

Cymhwyster addysg uwch ar lefel 5 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 5 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, ac ar lefel 8 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*. (Gweler hefyd 'Fframweithiau Cymwysterau Addysg Uwch', 'fframwaith credydau a chymwysterau'.)

## **Diploma Mynediad i Addysg Uwch**

Y cymhwyster sydd wedi ei lunio i alluogi oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd heb gymwysterau traddodiadol i fynd i mewn i addysg uwch.

## **diploma ôl-raddedig**

Cymhwyster addysg uwch ar lefel 7 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 7 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, ac ar lefel 11 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*. Gweler hefyd 'Fframweithiau Cymwysterau Addysg Uwch', 'fframwaith credydau a chymwysterau'.

## **disgrifiad gweithredol**

Esboniad manwl o'r ffordd mae dull adolygu'n gweithio.

## **disgrifwyr gradd**

Datganiadau sy'n diffinio lefel o gyflawniad o fewn band penodol o farciau.

### **disgrifydd cymhwyster**

Datganiadau generig am y prif gymwysterau ar bob lefel mewn fframwaith cymwysterau (er enghraifft, gradd baglor gydag anrhydedd, gradd meistr), sy'n disgrifio'r hyn y dylai myfyrwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos wrth dderbyn y cymhwyster hwnnw, a dangos esiamplau o'i nodweddion.

### **disgrifydd lefel credyd**

Datganiad am nodweddion generig dysgu ar lefel credyd benodol, a ddefnyddir fel pwynt cyfeirio i'r rheiny sy'n llunio rhaglenni astudio. (Gweler hefyd 'fframwaith credydau'.)

### **disgrifydd lefel**

Gweler 'disgrifydd lefel credyd'.

### **disgrifydd**

Gweler 'disgrifydd lefel credyd', 'disgrifydd cymhwyster'.

### **Disgwyliadau**

Datganiadau yn y Cod Ansawdd sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt. (Gweler hefyd 'Y Cod Ansawdd'.)

### **disgyblaeth**

Maes diffiniedig o astudiaeth academiaidd.

### **diwydrwydd dyladwy**

Ymholiadau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu, ethos, statws, gallu, enw da a phriodoldeb cyffredinol sefydliad darparu neu ddarparwr cymorth posibl i fodloni gofynion corff dyfarnu graddau am drefniant i ddarparu cyfleoedd dysgu.

### **doethur mewn athroniaeth (PhD, DPhil)**

Gweler 'gradd doethuriaeth neu ddoethuriaeth'.

### **dogfen hunanasesu / dogfen hunanwerthuso**

Adroddiad a gyflwynir gan ddarparwr addysg uwch, yn asesu ei berfformiad ei hun, a ddefnyddir fel tystiolaeth mewn adolygiad gan QAA. Mewn rhai o ddulliau QAA, cyfeirir at y ddogfen hon fel 'hunan-ddadansoddiad'.

### **dulliau astudio**

Gwahanol ffyrdd o astudio, megis astudio'n llawn amser, yn rhan amser, e-ddysgu neu ddysgu seiliedig ar waith.

### **dyfarniad academiaidd**

Cymhwyster, neu gredyd academiaidd, wedi ei gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academiaidd a osodir ar gyfer rhaglen neu uned astudio.

### **dyfarniad ar y cyd**

Trefniant lle gall dau gorff dyfarnu graddau neu fwy ddarparu, gyda'i gilydd, raglen sy'n arwain at un dyfarniad a wneir ar y cyd gan y ddau gyfranogwr, neu gan bob un o'r cyfranogwyr. Mae un dystysgrif neu un ddogfen (wedi ei llofnodi gan yr awdurdodau

cymwys) yn tystio bod y rhaglen hon sydd wedi ei darparu ar y cyd wedi cwblhau'n llwyddiannus, gan gymryd lle'r cymwysterau sefydliadol neu genedlaethol ar wahân.

### **dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuil**

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un rhaglen gan ddau gorff dyfarnu graddau sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. (Gweler hefyd 'dyfarniadau lluosog'.)

### **dyfarniad**

Cymhwyster, neu gredyd academiaidd, wedi ei gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academiaidd a osodir ar gyfer rhaglen neu uned astudio.

### **dyfarniadau lluosog**

Trefniant lle mae tri chorff dyfarnu graddau neu fwy'n darparu, gyda'i gilydd, un rhaglen (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at ddyfarniad ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer dyfarniadau dwbl/deuil, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

### **dysgu blaenorol**

Gweler 'achredu dysgu blaenorol', 'cydnabod dysgu blaenorol'.

### **dysgu cyfunol**

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu. (Gweler 'dysgu gyda chymorth technoleg'.)

### **dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)**

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

### **dysgu hyblyg a dosranedig**

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. (Gweler hefyd 'dysgu o bell'.)

### **dysgu o bell**

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhynggrwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, fideo neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. (Gweler hefyd 'dysgu cyfunol'.)

### **dysgu seiliedig ar waith neu ddysgu yn y gweithle**

Dysgu sy'n digwydd, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, yng nghyd-destun cyflogaeth. (Gweler hefyd 'lleoliad gwaith'.)

## **E**

### **e-ddysgu**

Gweler 'dysgu gyda chymorth technoleg'.

### **ehangu cyfranogaeth**

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.



## **ehangu mynediad**

Y broses a ddefnyddir gan ddarparwyr i amrywio eu prosesau dethol neu dderbyn yn dibynnu ar ganllawiau polisi a disgwyliadau ar lefel leol neu genedlaethol.

## **eiddo i'r cyhoedd**

Unrhyw leoliad lle gall aelodau o'r cyhoedd ddisgwyl cael mynediad digyfnygedig i wybodaeth. (Gweler hefyd 'yn eiddo i'r cyhoedd'.)

## **etholfreinio**

Proses lle mae corff dyfarnu graddau'n cytuno i awdurdodi sefydliad arall i ddarparu (ac weithiau asesu) rhan neu'r cwbl o un (neu fwy) o'i raglenni cymeradwy ei hun. Yn aml iawn, mae'r corff dyfarnu graddau'n cadw'r cyfrifoldeb uniongyrchol am gynnwys y rhaglen, y strategaeth addysgu ac asesu, a'r trefnau asesu a sicrhau ansawdd. Fel arfer mae gan fyfyrwyr berthynas gytundebol uniongyrchol gyda'r corff dyfarnu graddau.

## **Ff**

### **fframwaith credydau a chymwysterau**

Fframwaith credydau mewn cyfuniad â fframwaith cymwysterau, er enghraifft, *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (SCQF).

### **fframwaith credydau**

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n nodi beth yw'r gwerth credyd sy'n nodweddiadol gysylltiedig â rhaglenni a chymwysterau, ac mae hynny'n gyffredinol yn cynnwys disgrifwyr lefel credyd.

### **fframwaith cymwysterau**

Strwythur ffurfiol sy'n pennu lefelau cymwysterau mewn trefn esgynnol ac sy'n nodi'r gofynion o ran y cymwysterau sydd i gael eu dyfarnu ar bob un. Yn addysg uwch y DU, mae'r 'Fframweithiau Cymwysterau' yn cyfeirio'n benodol at y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU, sy'n rhan o'r Cod Ansawdd. (Gweler 'ansawdd academaidd'.)

### **Fframwaith Gwella Ansawdd**

Strwythur ffurfiol ar gyfer gwella ansawdd addysg uwch yn yr Alban, a ddatblygwyd ac a gynhelir ar y cyd gan bartneriaeth rhwng Cyngor Cyllido'r Alban, Prifysgolion yr Alban, QAA yr Alban, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (Yr Alban) a'r Academi Addysg Uwch. Mae'r Fframwaith yn cynnwys pum prif elfen: adolygiadau dan arweiniad sefydliad, Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant, gwybodaeth gyhoeddus, ymgysylltiad myfyrwyr a rhaglen o Themâu Gwelliant.

### **Fframwaith Rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr**

Mae Fframwaith Rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr yn nodi sut mae'n bwriadu cyflawni ei hamrywiol swyddogaethau, ac mae'n darparu arweiniad i ddarparwyr addysg uwch cofrestredig am amodau parhaus y cofrestriad.

### **fframwaith**

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig.

## **Fframweithiau Cymwysterau Addysg Uwch**

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac sy'n disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwyllir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny mae'n helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae QAA yn cynnal y *Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU (Fframweithiau Cymwysterau)*, a gyhoeddwyd ar wahân yn y gorffennol fel *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)*, a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban (FQHEIS)*.

## **G**

### **Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol**

Proses a ddefnyddir gan QAA i wneud adolygiadau a darparu adroddiadau am ddarparwyr sydd wedi eu cydnabod gan Fisâu a Mewnffudo'r DU (UKVI) fel rhai sydd â threfniadau eithriadol sydd angen goruchwyliaeth addysgol gan QAA, ac nad ydynt wedi eu cynnwys mewn dulliau eraill megis Adolygiad Addysg Uwch (Darparwyr Amgen). Mae trefniadau eithriadol yn cynnwys colegau sy'n gweithredu fel sefydliadau ymreolaethol sydd â chysylltiad agos â sefydliad addysg uwch.

#### **goruchwyliaeth addysgol**

Mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch sydd eisiau ennill trwydded noddwr myfyrwyr Haen 4 ddangos bod eu holl ddarpariaeth yn bodloni'r safonau ansawdd addysgol sy'n dderbyniol. Gwneir yr asesiad hwn gan gorff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol.

Yng Nghymru, CCAUC yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol ar sefydliadau a reoleiddir a darparwyr addysg uwch sydd â chysiau gyda dynodiad penodol nad ydynt o dan oruchwyliaeth addysgol Estyn.

Yn Lloegr, y Swyddfa Myfyrwyr yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol ar ddarparwyr sy'n gymwys i gofrestru â hi. Mae'n rhaid i ddarparwyr cymwys sydd eisiau ennill neu gadw statws noddwr Haen 4 gofrestru â'r Swyddfa Myfyrwyr. QAA yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol ar y darparwyr hynny yn unig nad ydynt yn gymwys i gofrestru â'r Swyddfa Myfyrwyr.

#### **gradd anrhydedd**

Y math o radd baglor a ddyfernir yn gyffredinol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac a ddyfernir hefyd yn yr Alban yn wahanol i raddau baglor cyffredin. Mae gradd anrhydedd yn gofyn astudiaeth a chyflawniad mwy eang na gradd gyffredin.

#### **gradd baglor**

Cwrs astudio academiaidd sy'n arwain at gymhwyster, dros gyfnod o dair neu bedair blynedd academiaidd o astudio llawn amser fel arfer, ac sy'n gofyn llawer iawn o astudiaeth annibynnol er mwyn datblygu dealltwriaeth drwyadl o bwnc.

Mae ar lefel 6 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 6 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* ac ar lefelau 9 i 10 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (9 ar gyfer graddau baglor cyffredin, 10 ar gyfer graddau baglor anrhydedd).

Mae esiamplau'n cynnwys gradd baglor yn y celfyddydau (BA) a gradd baglor yn y gwyddorau (BSc). I ennill gradd baglor 'gydag anrhydedd' mae gofyn i fyfyrwr gyflawni canlyniadau dysgu astudiaeth fwy ei maint.

### **gradd doethuriaeth neu ddoethuriaeth**

Cymhwyster addysg uwch a ddyfernir ar gyfer rhaglen o waith astudio ac ymchwil sy'n wreiddiol ac yn annibynnol i raddau mawr (yn para o leiaf tair blynedd fel arfer), ac mae ar lefel 8 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* ac ar lefel 12 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*.

### **gradd er anrhydedd**

Dyfarniad nad yw'n gymhwyster academaidd ond a ddefnyddir gan gorff dyfarnu graddau i gydnabod cyflawniadau neu statws unigolyn penodol. Ni ddylid drysu'r term yma gyda 'gradd anrhydedd'. (Gweler hefyd 'gradd baglor').

### **gradd gyffredin**

Gradd baglor sydd ar lefel 6 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* ac ar lefel 9 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*, sy'n gofyn i fyfyrwr gyflawni canlyniadau dysgu astudiaeth lai ei maint fel arfer na hynny a ddisgwylir ar gyfer gradd baglor 'gydag anrhydedd'.

### **gradd israddedig**

Gweler 'gradd baglor'.

### **gradd meistr**

Cymhwyster addysg uwch, yn para o leiaf blwyddyn fel arfer, sydd wedi ei nodweddu gan astudio dyfnach a mwy o arbenigedd na rhaglen gradd baglor. Mae ar lefel 7 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 7 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* ac ar lefel 11 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*. Mae enghreifftiau'n cynnwys graddau meistr yn y celfyddydau (MA), meistr yn y gwyddorau (MSc) a meistr mewn athroniaeth (MPhil).

### **gradd ryngosodol**

Gradd israddedig ychwanegol opsiynol (BSc neu BA) neu raglen lefel gradd meistr a gymerir er mwyn astudio maes arbenigol ymhellach. Er enghraifft, mae myfyrwr sy'n astudio ar gwrs sydd heb gredydau fel arfer (megis meddygaeth neu ddeintyddiaeth) yn cwblhau trydedd neu bedwaredd flwyddyn cwrs israddedig sydd â chredydau ac yn derbyn dyfarniad gradd BSc neu MSc ryngosodol. Mae rhaglenni'n caniatáu cydnabyddiaeth i ddysgu blaenorol am y ddwy flynedd gyntaf (h.y. 240 o bwyntiau credyd academaidd) ac nid yw'r flwyddyn ryngosodol yn cyfri tuag at y credydau academaidd gofynnol.

### **gradd sylfaen**

Cwrs astudio academaidd sy'n arwain at gymhwyster addysg uwch, sy'n alwedigaethol ei natur fel arfer ac a gwblheir fel arfer dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae ar lefel 5 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ac ar lefel 5 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*.

### **gradd ymchwil**

Cymhwyster addysg uwch ar lefel 7 neu 8 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 7 neu 8 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, ac ar lefel 11 neu 12 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*.

### **gradd**

Term gwarchodedig am gymhwyster addysg uwch ar un o nifer o lefelau, a benderfynir yn ôl dyfnder ac ehangder yr astudio ac a ddyfernir am gyflawni, yn llawn, y canlyniadau dysgu a

nodir yn y disgrifydd cymhwyster priodol o fewn y fframwaith cymwysterau perthnasol. (Gweler 'gradd baglor', 'gradd doethuriaeth', 'gradd sylfaen', 'gradd meistr'.)

### **graddau 'carlam'**

Mae'r rhain yn raddau llawn a addysgir mewn llai o amser ac sydd fel arfer yn cynnig tri semester dros gyfnod o flwyddyn galendr. Cyfeirir atynt weithiau fel 'graddau cryno' neu 'raddau dwys'.

### **graddedig**

Person sydd wedi cyflawni gradd baglor neu radd uwch.

### **graddio**

Y broses o dderbyn gradd yn ffurfiol mewn seremoni, nid yn bersonol o angenrheidrwydd.

### **gwelliant**

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu QAA.

### **gwerth credyd**

Y nifer o gredydau ar lefel benodol, sydd wedi eu haseinio i faint penodol o ddysgu. Mae'r nifer o gredydau wedi ei seilio ar yr oriau dysgu a amcangyfrifir (lle mae un credyd yn cynrychioli 10 awr dybiannol o ddysgu fel arfer).

### **gwerthusiad**

Y broses gyfnodol o asesu sefydliad, maes gwaith, prosiect neu gwrs yn ôl-syllol, a weithredir yn fewnol neu gan werthuswyr annibynnol allanol. Mae'r broses werthuso'n defnyddio data monitro - cyfredol a hanesyddol - i ddatblygu dealltwriaeth ac i hysbysu gwaith cynllunio.

### **Gwerthuso a Gwella Ansawdd Darpariaeth Addysg Uwch Drawswladol y DU (Cynllun GA-AD)**

Mae'r Cynllun GA-AD yn berthnasol i holl gyrff dyfarnu graddau'r DU ar sail wirfoddol ac mae'n rhedeg o flwyddyn academaidd 2021-22 i 2025-26. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliant, yn cael ei hysbysu gan fetrigau cadarn, ac yn rhoi lle canolog i brofiad y myfyrwyr.

### **gwybodaeth a data cyd-destunol**

Gwybodaeth a data sy'n galluogi i ddarparwyr addysg uwch osod cyrhaeddiad yng nghyd-destun amgylchiadau'r myfyriwr a'i cyflawnodd, er enghraifft, data am gefndir addysgol, daearyddol-ddemograffig ac economaidd-gymdeithasol y myfyriwr.

### **gwybodaeth ddangosol**

Gwybodaeth sy'n darparu trosolwg neu amlinelliad o bwnc ond nid yw'n honni ei bod yn gwbl gynhwysfawr.

### **gwybodaeth gyhoeddus**

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd - y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd'.

### **gwybodaeth hygyrch**

Gwybodaeth a gyflwynir neu sydd ar gael mewn ffurfiau addas fel bod yr holl gynulleidfa oedd targed yn gallu ei chanfod a'i deall.

## **gwybodaeth rheoli**

Gwybodaeth a gesglir ar gyfer monitro ac adolygu safonau ac ansawdd academaidd, ac a ddefnyddir i hysbysu penderfyniadau rheolwyr.

## **H**

### **Haen 4**

Y rhan o system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau Llywodraeth y DU sy'n ymwneud ag unigolion sydd eisiau dod i'r DU i wneud cwrs astudio mewn sefydliad addysgol. Ystyrir y sefydliadau addysg uwch hynny y caniateir iddynt recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yn noddwyr ag ymddiriedaeth uchel. Er mwyn sicrhau'r statws hwn, mae'n rhaid i ddarparwyr addysg uwch gael eu rhestru ar gofrestr y Swyddfa Myfyrwyr. QAA yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol ar y darparwyr hynny yn unig nad ydynt yn gymwys i gofrestru â'r Swyddfa Myfyrwyr.

### **hunan-ddadansoddiad**

Gweler 'dogfen hunanasesu / dogfen hunanwerthuso'.

### **Hwylusydd Sefydliadol**

(Mewn adolygiad gan QAA,) rôl a gyflawnir gan aelod o staff y darparwr sy'n gyfrifol am gydlynu ymgysylltiad y darparwr â'r adolygiad.

## **L-LI**

### **lefel credyd**

Mae'r lefel credyd yn dangos beth yw cymhlethdod, dyfnder ac ymreolaeth cymharol y dysgu sy'n gysylltiedig â modiwl penodol, a defnyddir hon mewn fframweithiau credydau. (Gweler hefyd 'gwerth credyd', 'disgrifiydd lefel credyd'.)

### **lefel cymhwyster**

Un o gyfres o bwyntiau diffiniedig mewn fframwaith cymwysterau sydd wedi eu rhifo mewn trefn esgynnol. Mae cymwysterau o fewn yr un lefel yn rhannu nodweddion ac yn gofyn am gyflawniad tebyg. Gellir cymharu lefelau cymhwyster mewn gwahanol fframweithiau. Mae lefelau cymhwyster yn wahanol i lefelau credyd.

### **lefel**

Gweler 'lefel cymhwyster', 'lefel credyd'.

### **Ileoliad gwaith**

Cyfnod wedi ei gynllunio o brofiad y tu allan i'r sefydliad (er enghraifft, mewn gweithle) i helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth neu ddealltwriaeth arbennig yn rhan o'u rhaglen.

### **Ilywodraethu academaidd**

Term sy'n cyfeirio at y prosesau a'r systemau sydd ar waith mewn sefydliad addysg uwch sy'n diffinio ac yn llywio'r penderfyniadau ar faterion academaidd, megis derbyniadau, safonau academaidd ac ansawdd.

## **M-N**

### **manylebau rhaglen**

Datganiadau wedi eu cyhoeddi am y canlyniadau dysgu y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

### **marcio dienw**

Marcio gwaith a gyflwynwyd gan fyfyrwyr heb ddatgelu pwy ydynt i'r person sy'n gwneud y gwaith marcio, fel nad yw'r asesiad yn rhagfarnllyd.

### **marcio dwbl**

Asesiad o waith myfyrwyr gan ddau farciwr annibynnol neu fwy fel ffordd o ddiogelu neu sicrhau safonau academiaidd drwy reoli rhagfarnau unigol.

### **meincnodi rhyngwladol**

Y gweithgaredd o bennu, ystyried, cymharu a dysgu o arferion sy'n datblygu'n rhyngwladol ac anelu at rannu a dysgu o hyn mewn cyfres o themâu sy'n berthnasol i addysg uwch yn yr Alban.

### **meini prawf asesu**

Y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae marcwyr yn disgwyl i fyfyrwr eu dangos mewn tasg asesu, ac a gymerir i ystyriaeth wrth farcio'r gwaith. Mae'r meini prawf hyn wedi eu seilio ar y canlyniadau dysgu a fwriedir.

### **meistr yn y celfyddydau / meistr yn y gwyddorau**

Gweler 'gradd meistr'.

### **melinau traethodau**

Busnesau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar-lein i fyfyrwyr lle maen nhw'n cytuno ar 'gontract' i wneud aseiniadau ar eu rhan am dâl.

### **micro-gymwysterau**

Cyrsiau neu fodiwlau sydd â chredydau a gynlluniwyd i sefyll ar eu pennau eu hunain ac nid i gael eu hastudio fel elfen o ddyfarniad ehangach. Dyfernir micro-gymwysterau gan gorff sydd â phwerau dyfarnu credydau academiaidd, ac maent yn cael eu rheoli drwy ddulliau cymesur o sicrhau ansawdd a'u mapio yn erbyn y lefelau a osodir yn y Fframweithiau Cymwysterau.

### **modiwl/cymhwyster 'cragen'**

Modiwl templed a ddilyswyd yn barod sy'n galluogi i elfennau dysgu yn y gweithle gael eu hintegreiddio i astudiaethau'r dysgwr.

### **modiwl**

Uned astudio hunangynhwysol, wedi ei strwythuro'n ffurfiol, gyda chyfres eglur a rhesymegol o ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio'r gair 'cwrs' i gyfeirio at fodiwlau unigol.

### **modiwlaidd**

Wedi ei greu o fodiwlau.

## **monitro**

Gwaith rheolaidd o gasglu a dadansoddi gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar faes gwaith, prosiect neu raglen/cwrs, a gyflawnir tra bo'r maes gwaith, y prosiect neu'r rhaglen/cwrs yn weithredol.

## **myfyriwr israddedig**

Myfyriwr nad yw eto wedi ennill gradd gyntaf.

## **myfyriwr ôl-raddedig**

Myfyriwr sydd wedi cyflawni gradd baglor neu radd gyfatebol ac sydd yn awr yn astudio ar gyfer cymhwyster ar lefel uwch.

## **myfyriwr**

Pob unigolyn sy'n astudio ar gwrs addysg uwch waeth beth yw eu cefndiroedd demograffig neu ddull, lefel, maes neu leoliad eu hastudio. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau ar hyn o bryd, cyn-fyfyrwyr sydd wedi cwblhau eu hastudiaethau'n ddiweddar, a graddedigion (yn dibynnu ar reoliadau'r darparwr), ac hefyd unigolion sy'n gwneud cais am le ar gwrs darparwr addysg uwch, yn ogystal â'r myfyrwyr hynny sydd hefyd yn 'brentisiaid'.

## **myfyrwyr cyfredol**

Myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar raglen astudio, ac sy'n cymryd rhan yn y rhaglen astudio, nad ydynt eto wedi cwblhau eu hastudiaethau neu sydd wedi derbyn eu cymhwyster. Mae unigolyn yn dod yn 'fyfyriwr cyfredol' y funud y mae'n cofrestru.

## **nodweddion gwarchoddedig**

Nodweddion penodol - oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil (tarddiad ethnig neu hunaniaeth genedlaethol), crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol - a allai, yng nghyd-destun y Cod Ansawdd, ofyn i ystyriaeth arbennig gael ei rhoi i sicrhau mynediad cyfartal i gyfleoedd addysgol i bawb.

## **Noddwr Haen 4**

Sefydliad y mae Llywodraeth y DU yn ymddiried ynddo i roi lle i fyfyrwyr tramor sydd wedi mewnfudo, yn ôl Haen 4 system fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau Fisâu a Mewnfudo'r DU. Mae'n rhaid i'r darparwyr addysg uwch sydd eisiau ennill y statws hwn fod ar gofrestr y Swyddfa Myfyrwyr. QAA yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw goruchwyliaeth addysgol ar y darparwyr hynny yn unig nad ydynt yn gymwys i gofrestru â'r Swyddfa Myfyrwyr.

## **O**

### **oriau tybiannol o ddysgu**

Y nifer o oriau y disgwylir y bydd dysgwr yn eu treulio (ar lefel benodol) ar gyfartaledd i gyflawni'r canlyniadau dysgu penodol ar y lefel honno. Gallai hyn gynnwys amser a dreulir yn dysgu yn y dosbarth, unrhyw ddysgu cyfeiriedig, ac asesu ac astudio annibynnol. Fel arfer, ystyrir un credyd yn gyfartal â 10 awr dybiannol o ddysgu.

## **P**

### **partner cydweithredol**

Gweler 'sefydliad darparu', 'darparwr cymorth', 'sefydliad partner'.

## **pentref addysg**

Grŵp o ddarparwyr addysg sy'n defnyddio campws ac ethos a rennir, ac yn ffurfio cymuned addysgol, er nad ydynt o anghenraid yn darparu addysg o'r un math neu ar yr un lefel.

## **prentisiaeth gradd**

Gweler 'Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd'.

## **prentisiaeth**

Swydd sy'n cynnwys hyfforddiant yn unol â safonau diwydiannol a/neu broffesiynol, boed ganddo gymhwyster gorfodol ai peidio. (Gweler hefyd 'Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd'.)

## **Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd**

Prentisiaethau Uwch yw prentisiaethau ar lefelau 4 i 7 nad ydynt yn cynnwys cymhwyster gradd gorfodol ond a allai gynnwys cymhwyster arall. Prentisiaethau Gradd yw prentisiaethau ar lefelau 6 neu 7 sy'n gorfod cynnwys gradd baglor gydag anrhydedd neu radd meistr fel cymhwyster gorfodol.

## **Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr**

Rôl benodol mewn rhai o ddulliau adolygu QAA sy'n rhoi cyfle i un o fyfyrwyr y darparwr sy'n cael ei adolygu gymryd rhan yn y broses adolygu ar ran y corff myfyrwyr.

## **Prif Gynrychiolydd Prentisiaid**

Rôl benodol mewn rhai o ddulliau adolygu QAA sy'n rhoi cyfle i un o brentisiaid y darparwr sy'n cael ei adolygu gymryd rhan yn y broses adolygu ar ran y corff myfyrwyr.

## **prifysgol**

Sefydliadau annibynnol a hunanlywodraethol sy'n gwneud gwaith ymchwil ac addysgu ac sy'n amrywiol eu maint, eu cenhadaeth a'u hanes ac sy'n amrywio o ran yr ystod o bynciau y maent yn eu cynnig. Cododd y prifysgolion cyntaf o golegau neu sefydliadau a sefydlwyd gan grwpiau o ysgolheigion gyda chysylltiadau mynachaid yn aml iawn a/neu noddwyr bonheddig neu frenhinol. Yn dilyn hynny, mae prifysgolion wedi eu sefydlu drwy Siarter Frenhinol, Deddf Seneddol, Bwla Pabaidd neu drwy Orchymyn y Cyfrin Gyngor gan eu galluogi i ddatblygu eu rhaglenni astudio eu hunain a dyfarnu eu graddau eu hunain. Gweler hefyd 'pwerau dyfarnu graddau'.

## **pridoledau graddedigion**

Sgiliau a rhinweddau y mae darparwyr addysg uwch wedi nodi y bydd eu graddedigion wedi eu datblygu yn ystod eu hastudiaethau a thrwy gymryd rhan ym mywyd myfyrwyr. Gallai rhestr o nodweddion gynnwys disgrifiadau megis meddyliwr beirniadol a dadansoddol, cyfathrebwr effeithiol, unigolyn gwydn a hunanddibynnol.

## **profiad myfyrwyr**

Term sy'n cwmpasu profiadau'r myfyrwyr o'u cyrsiau neu eu rhaglenni, a'r adnoddau, y cymorth, y cyfleusterau a'r cyfleoedd a gânt gan eu darparwr i gefnogi eu dysgu.

## **Proses Bologna**

Menter i gryfhau a datblygu Ardal Addysg Uwch Ewrop fel dull o sicrhau bod cymwysterau'n cael eu cydnabod yn gyfartal, bod systemau'n eglur a bod staff a myfyrwyr yn gallu trosglwyddo'n hawdd rhwng sefydliadau addysg uwch yn Ewrop.



## **pryder**

Problem ddifrifol sy'n ymwneud â'r ffordd y mae sefydliadau addysg uwch yn rheoli eu safonau academaidd, ansawdd y cyfleoedd dysgu, ac/neu ansawdd yr wybodaeth y maent yn ei darparu am eu darpariaeth. Mae gan QAA Gynlluniau Pryderon yng Nghymru a'r Alban, ac mae gan y Swyddfa Myfyrwyr Broses Sylwadau a Phryderon yn Lloegr.

## **pwerau dyfarnu graddau a addysgir**

Gweler 'pwerau dyfarnu graddau'.

## **pwerau dyfarnu graddau baglor**

Gweler 'pwerau dyfarnu graddau'.

## **Pwerau Dyfarnu Graddau Newydd**

Math o bŵer dyfarnu graddau, a gyflwynwyd drwy Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, y gall darparwyr addysg uwch yn Lloegr wneud cais amdano ac sy'n cael ei awdurdodi gan y Swyddfa Myfyrwyr. (Gweler hefyd 'pwerau dyfarnu graddau'.)

## **pwerau dyfarnu graddau sylfaen**

Gweler 'pwerau dyfarnu graddau'.

## **pwerau dyfarnu graddau ymchwil**

Gweler 'pwerau dyfarnu graddau'.

## **pwerau dyfarnu graddau**

Yr hawl i gyflwyno graddau, a roddir drwy statud, drwy Siarter Frenhinol, neu gan y Cyfrin Gyngor neu'r Swyddfa Myfyrwyr. Gall sefydliadau wneud cais am yr hawl i ddyfarnu graddau baglor, graddau sylfaen, graddau ymchwil a graddau a addysgir. Gellir awdurdodi pwerau am amser amhendant, am amser cyfyngedig neu ar sail adnewyddadwy. Dyma'r mathau o bwerau dyfarnu graddau y gall sefydliadau addysg uwch eu dal:

- pwerau dyfarnu graddau baglor
- pwerau dyfarnu graddau sylfaen
- pwerau dyfarnu graddau ymchwil
- pwerau dyfarnu graddau a addysgir

Gweler hefyd 'corff dyfarnu graddau', 'Siarter Frenhinol', 'teitl prifysgol'.

## **pwerau llawn i ddyfarnu graddau**

Math o bŵer dyfarnu graddau, a gyflwynwyd drwy Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, y gall darparwyr addysg uwch yn Lloegr wneud cais amdano ac sy'n cael ei awdurdodi gan y Swyddfa Myfyrwyr. (Gweler hefyd 'pwerau dyfarnu graddau').

## **Y Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU [UK Standing Committee for Quality Assessment] (UKSCQA)**

O dan arweiniad y sector, mae'r pwyllgor hwn yn goruchwylio trefniadau ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch sy'n parhau i gael eu rhannu drwy'r DU gyfan. Ar ran y UKSCQA, mae QAA yn gweithio gyda'r sector addysg uwch i ddatblygu a chynnal cyfres gyflawn o gyngor ac arweiniad i gefnogi darparwyr i ddatblygu a chynnal arferion effeithiol i sicrhau ansawdd.

## **pwyntiau cyfeirio**

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

## **R-Rh**

### **recriwtio**

Yr ystod eang o weithgareddau a mentrau a wneir gan ddarparwyr neu eu cynrychiolwyr cyn iddynt dderbyn fyfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys gwaith allgymorth, digwyddiadau a gweithgareddau marchnata sy'n arwain, yn y pen draw, at annog darpar fyfyrwyr i wneud cais am le ar gwrs neu ddechrau ar gwrs y darparwr hwnnw. Yn y Cod Ansawdd, mae'r term 'recriwtio' yn cyfeirio'n benodol at y broses a ddefnyddir gan ddarparwyr i rannu gwybodaeth a chynngor gyda darpar fyfyrwyr.

### **rhaglen (astudio)**

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster. Rhaid i raglenni addysg uwch y DU gael eu cymeradwyo a'u dilysu gan gyrff dyfarnu graddau'r DU.

### **raglenni gradd doethuriaeth broffesiynol**

Rhaglenni sy'n arwain at raddau doethuriaeth mewn cyd-destun proffesiynol arbennig, ac sy'n cynnwys rhai elfennau a addysgir fel arfer, yn ychwanegol at y traethawd ymchwil. Mae arferion yn ymwneud â chredydau'n amrywio, ond mae graddau doethuriaeth broffesiynol yn cynnwys o leiaf dair blynedd galendr o astudiaethau ôl-raddedig fel arfer, ac mae astudiaethau ar lefel 7 yn cynrychioli llai na thraean o hyn.

### **rheoliadau asesu**

Y rheoliadau sy'n llywio asesiad o raglen astudio gan gynnwys y cynllun marcio, y marc pasio, y gofynion ar gyfer symud ymlaen i lefelau neu gamau dilynol rhaglen, a'r gofynion dyfarnu a dosbarthu (er enghraifft, credydau sydd i gael eu cyflawni a marciau penodol sydd i gael eu hennill).

### **rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)**

Mewnwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi ei diogelu gan gyfrinair sy'n rhoi mynediad yn electronig i gyfleoedd dysgu. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi eu recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

## **S**

### **safle uwch**

Cydnabod astudiaeth lwyddiannus flaenorol er mwyn gostwng y nifer o fodiwlau sy'n ofynnol i gwblhau cwrs.

### **safon academiaidd trothwy**

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn dyfarniad academiaidd. Mae safonau academiaidd trothwy wedi eu disgrifio yn y Fframweithiau Cymwysterau cenedlaethol. Gallai darparwyr hefyd gyfeirio at bwntiau cyfeirio cenedlaethol megis Datganiadau Meincnodi Pwnc.

## **safon prentisiaeth**

Safon y brentisiaeth sydd wedi ei gosod gan y grŵp o 'arloeswyr', yn cynnwys yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad y mae'n rhaid i'r prentis eu dangos er mwyn cwblhau'r brentisiaeth.

## **safon**

Gweler 'safonau academiaidd'.

## **Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG)**

Y disgwyliadau a ddatblygwyd gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA) ar gyfer sicrhau ansawdd mewn addysg uwch ar draws Ardal Addysg Uwch Ewrop.

## **safonau academiaidd**

Dyma'r safonau a osodir ac a gynhelir gan ddarparwyr ar gyfer dyfarnu eu credydau neu eu cymwysterau academiaidd. Gallai'r rhain fod yn uwch na'r safonau trothwy. Mae darparwyr unigol yn gyfrifol am ddiffinio eu safonau academiaidd eu hunain drwy osod y marciau pasio a phennu'r cynlluniau graddio/marcio ac unrhyw feini prawf ar gyfer dosbarthu cymwysterau sy'n gwahaniaethu rhwng lefelau cyflawniad y myfyrwyr sy'n uwch ac sy'n is na'r safonau academiaidd trothwy. I osod eu safonau academiaidd, mae darparwyr yn defnyddio pwyntiau cyfeirio cenedlaethol, megis Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, y safonau trothwy sydd wedi eu nodi yn y Fframweithiau Cymwysterau Addysg Uwch, a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol. Y cyrff dyfarnu graddau sy'n gyfrifol bob tro am safonau academiaidd eu cyrsiau. Gall y rhain fod yn uwch na'r safon trothwy sy'n angenrheidiol ar gyfer y cymhwyster. (Gweler hefyd 'safon academiaidd trothwy'.)

## **safoni**

Proses a sefydlwyd i sicrhau bod canlyniad asesiad yn deg a dibynadwy a bod meini prawf asesu wedi eu gweithredu'n gyson. (Gweler hefyd 'marcio dwbl'.)

## **sefydliad addysg uwch**

Prifysgolion, colegau neu sefydliadau eraill sydd, yn y lle cyntaf, yn darparu rhaglenni addysg uwch. (Gweler hefyd 'darparwr addysg uwch'.)

## **sefydliad darparu**

Sefydliad sy'n darparu cyfleoedd dysgu ar ran corff dyfarnu graddau. Efallai mai darparwr addysg uwch heb bwerau dyfarnu graddau ydy hwn, neu gorff dyfarnu graddau heblaw'r corff sy'n rhoi'r dyfarniad, neu gyflogwr neu sefydliad arall sydd wedi ei gymeradwyo gan y corff dyfarnu graddau.

## **sefydliad dyfarnu**

Sefydliad sydd wedi ei awdurdodi i ddyfarnu cymhwyster penodol; fel arfer, corff a gydnabyddir gan Ofqual i ddyfarnu cymwysterau wedi eu rheoleiddio gan Ofqual.

## **sefydliad partner**

Corff dyfarnu graddau sy'n gweithio ar y cyd gyda chorff arall i gynnig addysg uwch o dan gytundeb partneriaeth ffurfiol. Gallai cyrff dyfarnu graddau weithio gyda'i gilydd i gynnig dyfarniadau ar y cyd neu ddyfarniadau deuol, lle mae'r ddau'n defnyddio eu bwerau dyfarnu graddau.

## **sefydliad**

Gweler 'sefydliad addysg uwch'.

## **semester**

Un o'r ddwy ran o flwyddyn academiaidd sydd wedi ei rhannu'n ddwy i bwrpasau addysgu ac asesu (yn wahanol i rannu'n dymhorau).

## **sgiliau trosglwyddadwy**

Nodweddion a sgiliau craidd a ddatblygir o ystod eang o brofiadau, er enghraifft, mewn addysg, yn y gweithle, yn ystod gweithgareddau hamdden, ac mewn sefyllfaoedd personol a chymdeithasol, y gellir eu defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd. Gallai disgrifiadau o sgiliau trosglwyddadwy sy'n ddefnyddiol mewn amrywiaeth o swyddi a gyrfaoedd gynnwys geiriau megis gwaith tîm, sgiliau canfod a datrys problemau, ac arweinyddiaeth.

## **Siarter Frenhinol**

Caniatâd gan y brenin/frenhines, ar gyngor y Cyfrin Gyngor, oedd yn gyfrwng i'r mwyafrif o brifysgolion hŷn (a sefydlwyd cyn 1992) ennill eu statws prifysgol, sy'n nodi'r cyfansoddiad a'r statudau - y rheoliadau cyffredinol y dylai'r brifysgol weithredu oddi mewn iddynt.

## **Siarter**

Gweler 'Siarter Frenhinol'.

## **sicrhau ansawdd**

Monitro a gwerthuso dysgu ac addysgu'n systematig, a'r prosesau sy'n eu cefnogi, i sicrhau bod safonau dyfarniadau academiaidd yn cwrdd â'r Disgwyliadau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd, a bod ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr yn cael ei ddiogelu a'i wella.

## **strwythurau gweithredol**

Y seilwaith mewn sefydliad ar gyfer y penderfyniadau a'r camau gweithredu sydd i gael eu cymryd gan hierarchaeth o swyddogion unigol.

## **Y Swyddfa Myfyrrwr**

Y corff annibynnol sy'n rheoleiddio addysg uwch yn Lloegr, a sefydlwyd drwy Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

## **sylwadau**

(Mewn adolygiad gan QAA,) cais ffurfiol i adolygu penderfyniad sy'n deillio o un o ddulliau adolygu QAA. (Gweler hefyd 'apêl'.)

## **System Casglu a Throsglwyddo Credydau Ewropeaidd (ECTS)**

System a ddefnyddir drwy Ewrop gyfan ar gyfer casglu a throsglwyddo credydau academiaidd. Bwriad y system hon yw gwneud astudiaethau a chyrsgiau'n fwy eglur. Mae'n helpu myfyrrwr i symud rhwng gwledydd ac i gael cydnabyddiaeth i'w cymwysterau academiaidd a'u cyfnodau o astudio dramor. (Gweler hefyd 'cynlluniau casglu a throsglwyddo credydau'.)

## **T-Th**

### **teitl prifysgol**

Hawl sefydliad i'w alw ei hun yn brifysgol. I wneud hynny mae'n rhaid iddo fodloni meini prawf penodol, yn cynnwys dal pwerau dyfarnu graddau.

## **trawsgrifiad**

Cofnod academaidd a ddarperir gan y corff dyfarnu sy'n nodi enw'r dysgwr a'r sefydliad yr oedd yn astudio ynddo, ac yn cynnwys rhestr o'r holl gyrsiau a wnaed, y marciau a gafwyd ymhob uned neu fodiwl a'r graddau a ddyfarnwyd, yn ogystal â'r dosbarthiad graddau. Mae'r 'atodiad diploma' yn debyg i drawsgrifiad, ond mae'n cynnwys rhagor o wybodaeth i gydymffurfio â'r gofynion yn Ardal Addysg Uwch Ewrop. Mae'r Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (ACAU) yn drawsgrifiad gradd ffurfiol sy'n rhoi cofnod cyrhaeddiad cyflawn ac yn cynnwys profiadau a chanlyniadau dysgu academaidd ac allgwricwlaidd.

## **trefniant cydweithredol**

Trefniant ffurfiol rhwng corff dyfarnu graddau a darparwr addysg uwch arall, yn caniatáu i'r olaf ddarparu addysg uwch ar ran y cyntaf, gan arwain fel arfer at ddyfarnu credyd, neu gymhwyster, gan y corff dyfarnu graddau. Ymhob achos o'r fath, mae'r corff dyfarnu graddau'n parhau'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

## **trefniant cyfresol**

Y sefyllfa sy'n codi pan fydd sefydliad darparu, sy'n gyfrifol am raglenni sydd wedi eu hetholfreinio iddo (neu eu dilysu) gan gorff dyfarnu graddau, yn mynd i drefniant ar wahân gyda thrydydd parti i ddarparu'r rhaglenni cyfan hynny.

## **trefniant cynnydd**

Trefniant lle gall myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen yn llwyddiannus mewn un sefydliad gael eu hystyried ar sail unigol ar gyfer symud ymlaen naill ai at gychwyn neu at gam uwch o raglen gan y corff dyfarnu graddau. (Gweler hefyd 'trefniant trosglwyddo'.)

## **trefniant partneriaeth**

Trefniant lle gall myfyrwyr sydd wedi cwblhau rhaglen yn llwyddiannus mewn un sefydliad gael eu hystyried ar sail unigol ar gyfer symud ymlaen naill ai at gychwyn neu at gam uwch o raglen gan y corff dyfarnu graddau. (Gweler hefyd 'trefniant trosglwyddo', 'trefniant cydweithredol'.)

## **trefniant trosglwyddo**

Trefniant lle mae gan bob dysgwr sydd wedi ei gofrestru ar gwrs penodol mewn darparwr partner, ac sy'n bodloni'r meini prawf academaidd, hawl awtomatig i gael lle lefel uwch mewn blwyddyn neu ran ddilynol o gwrs corff dyfarnu graddau. (Gweler hefyd 'safle uwch'.)

## **trosglwyddo credydau**

System sy'n caniatáu i gredyd a roddir gan un darparwr addysg uwch gael ei gydnabod a'i gynnwys tuag at y gofynion ar gyfer rhaglen mewn darparwr addysg uwch arall; neu sy'n caniatáu i gredyd a enillir ar raglen benodol gyfrannu tuag at ofynion rhaglen wahanol. (Gweler hefyd 'cynlluniau casglu a throsglwyddo credydau'.)

## **trosglwyddo gwybodaeth (neu gyfnewid gwybodaeth)**

Defnyddio canlyniadau neu ddeilliannau gweithgareddau ymchwil addysg uwch er budd y gymdeithas ehangach a'r economi. Gallai hynny fod trwy ddatblygu cymwysiadau masnachol neu drwy helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, er enghraifft. Gellir gwneud y gweithgareddau hyn drwy 'bartneriaethau trosglwyddo gwybodaeth' (PTG).

## **twyll contract**

Math o dwyll lle mae myfyriwr yn cyflwyno gwaith i'w asesu a gynhyrchwyd gan ddefnyddio gwasanaethau trydydd parti. Gallai'r trydydd parti fod yn fusnes twyllo megis melin

traethodau, neu unigolyn megis cyfaill neu berthynas. Gallai'r contract gyda'r myfyriwr gynnwys tâl neu gymwynasau eraill. Cyfeirir at hyn weithiau fel 'comisiynu'.

### **tymor**

Unrhyw un rhan o flwyddyn academiaidd sydd wedi ei rhannu'n dair neu fwy i bwrpasau addysgu ac asesu (yn wahanol i'w rhannu'n semestrau).

### **tystysgrif addysg uwch**

Gweler 'tystysgrif israddedig', 'tystysgrif i raddedigion', 'thystysgrif ôl-raddedig'.

### **tystysgrif i raddedigion**

Cymhwyster addysg uwch ar lefel 6 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 6 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, ac ar lefelau 9 i 10 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (9 ar gyfer graddau cyffredin, 10 ar gyfer graddau anrhydedd).

### **tystysgrif israddedig**

Cymhwyster addysg uwch ar lefel 4 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 4 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, ac ar lefel 7 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*.

### **tystysgrif ôl-raddedig**

Cymhwyster addysg uwch ar lefel 7 yn *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, ar lefel 7 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, ac ar lefel 11 yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban*.

### **Thema Gwelliant**

Maes neu agwedd penodol o ddarpariaeth neu ymarfer, y cytunwyd arnynt ac a gynlluniwyd gan y sector addysg uwch yn yr Alban ac a reolir gan QAA, gyda'r nod o wella profiad dysgu'r myfyriwr. Mae'r Themâu'n annog staff academiaidd, staff cymorth a myfyrwyr i rannu arfer da (o'r DU ac yn rhyngwladol) a chynhyrchu syniadau a modelau ar y cyd ar gyfer arloesi mewn dysgu ac addysgu.

### **thema**

Yng nghyd-destun adolygiad QAA, pwnc sydd wedi ei ddewis i dderbyn sylw arbennig i bwrpasau ansawdd. Gweler hefyd 'Thema Gwelliant'.

## **U-Y**

### **uned**

Gweler 'modiwl'.

### **uniondeb academiaidd**

Ymrwymiad, hyd yn oed mewn sefyllfa anodd, i chwe gwerth sylfaenol, sef gonestrwydd, ymddiriedaeth, tegwch, parch, cydnabod cyfrifoldeb, a dewrder. Mae hyn yn golygu bod unigolion neu sefydliadau mewn addysg, ymchwil ac ysgolheictod yn cydymffurfio ag egwyddorion, safonau ac arferion moesegol a phroffesiynol. Y nodweddion gwrthgyferbyniol i uniondeb academiaidd yw arferion anfoesegol megis llên-ladrad, cydgyllwynio, twyll contract neu gamymddwyn academiaidd.

### **ymgysylltiad myfyrwyr**

Y ffordd ystyrion y mae myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn cymryd rhan yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol. Mae ymgysylltiad myfyrwyr yn cyfrannu at wella eu profiad addysgol yn ogystal â bod o fudd i'r corff myfyrwyr, y sefydliad a'r sector ehangach.

### **ymgysylltu**

Rhyngweithio a chyfathrebu gyda grŵp neu sefydliad arbennig sy'n arwain at well dealltwriaeth, yn arbennig ar faterion y mae'r ddwy ochr yn pryderu amdanynt.

### **ymweliad ar y safle**

(Mewn adolygiad gan QAA,) ymweliad adolygu â darparwr addysg uwch a wneir gan y tîm o adolygwyr sy'n bresennol ar safle(oedd) y darparwr.

### **ymweliad ar-lein**

(Mewn adolygiad gan QAA,) ymweliad adolygu â darparwr addysg uwch a weithredir ar-lein, lle mae'r tîm o adolygwyr yn cysylltu drwy gyfarfod ar-lein, cyswllt fideo a/neu daith fideo bob tro.

### **yn eiddo i'r cyhoedd**

Mae hyn yn cyfeirio at wybodaeth sydd wedi ei rhoi mewn man sy'n golygu ei bod ar gael yn hawdd i bawb.

Cyhoeddir y Llawlyfr yma yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 2 Medi 2022

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022  
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786  
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)